PWYLLGOR CRAFFU
LLE, CYNALIADWYEDD A NEWID HINSAWDD

24 TACHWEDD 2022

PRESENNOL (Yn y Siambr) Cynghorydd J.D. James (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):
K. Davies, P. Cooper.

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

S.M. Allen	T.A.J. Davies	D.C. Evans	T.M. Higgins
N. Lewis	B.D.J. Phillips	S. Godfrey-Coles	

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
- Cynghorydd A. Vaughan Owen, Yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd.
- Cynghorydd E. Thomas, Yr Aelod Cabinet dros Transport, Gwasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith;
- Cynghorydd P.M. Hughes, Yr Aelod Cabinet dros Trefniadaeth a'r Gweithlu.

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff;
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel;
S. Pilliner, Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth;
J. Edwards, Rheolwr Gwella Busnes;
D.W. John, Rheolwr Gwasanathau Amgylcheddol;
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd [Cymerwr Cofnodion].

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):
S.E. Watts, Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd;
S. Charles, Rheolwr Strategaeth a Seilwaith Trafnidiaeth;
C.N. Nelson, Rheolwr Asedau Priffyrdd;
R. James, Swyddog Cynllunio Perfformiad a Busnes;
R. S. Waters, Rheolwr Gwasanaethau Priffyrdd a Thrafnidiaeth;
L.J. Jones, Swyddog Iechyd yr Amgylchedd;
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell:10:00yb - 12:26yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd G.B. Thomas.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch unrhyw chwip waharddedig.
Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

4. BLAENRAGLEN WAITH DIWEDDARAF AR GYFER 2022/23

Cafodd y Pwyllgor ei Flaengynllun Gwaith diweddaraf ar gyfer 2022/23 i'w ystyried a'i gymeradwyo yn unol â'i benderfyniad a wnaed yn ei gyfarfod ar 4 Hydref 2022 [gweler cofnod 6.2] lle "penderfynwyd cyflwyno Blaengynllun Gwaith Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd ar gyfer 2022/23 gydag adroddiadau cyn gwneud penderfyniadau a nodwyd o Flaengynllun y Cabinet i'w cymeradwyo yn y cyfarfod nesaf."

Roedd aelodau'r Pwyllgor wedi cyfarfod yn anffurfiol ar 21 Medi, 2022 i ddatblygu'r Blaengynllun Gwaith ymhellach. Bu'r aelodau yn ystyried Blaengynllun y Cabinet gan nodi pa adroddiadau i'w cynnwys ym Mlaengynllun Gwaith y Pwyllgor.

Yn ystod y cyfarfod anffurfiol, mynegwyd pryder ynghylch y lefelau ffosffadau mewn afonydd a'r effaith ar yr amgylchedd yn ogystal â datblygiadau cynllunio yn y dyfodol. Ar ôl derbyn briff ar y mater gan y swyddogion, roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai'n fuddiol trafod a chraffu ar y mater hwn ymhellach. Felly, cynigwyd cynnwys adroddiad ym Mlaengynllun Gwaith y Pwyllgor. Eiliwyd y cynnig hwn.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Blaengynllun Gwaith Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd ar gyfer 2022/22, yn amodol ar gynnwys adroddiad ar y lefelau ffosffadau mewn Afonydd o fewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.

5. GRWP GORCHWYL A GORFFEN 2022 DOGFEN GYNLLUNIO A CHWMPASU DDIWYGIEDIG ADOLYGU'R GWAITH O REOLI TIPIO ANGHYFREITHLON YN SIR GAERFYRDDIN

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn amlinellu'r daith hyd yn hyn ers i'r Pwyllgor gymeradwyo'r ddogfen Cynllunio a Chwmpasu wreiddiol i Adolygu'r gwaith o Reoli Tipio anghyfreithlon yn Sir Gaerfyrddin yn ei gyfarfod ar 2 Gorffennaf 2021.

Yn ei Sesiwn Datblygu Blaengynllun Gwaith anffurfiol ar 1 Tachwedd, 2022, manteisiodd y Pwyllgor ar y cyfle i drafod Dogfen Cynllunio a Chwmpasu'r adolygiad a gafodd ei gymeradwyo ar 2 Gorffennaf 2021. Cafodd canlyniad y sesiwn ei atodi i'r adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ffurfiol y Pwyllgor a ffurfio Grŵp Gorchwyl a Gorffen sy'n wleidyddol gytbwys er mwyn i'r adolygiad ddechrau.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried nodau a chwmpas diwygiedig gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, fel y nodir yn y ddogfen cynllunio a chwmpasu.

Er mwyn ffurfio Grŵp Gorchwyl a Gorffen gwleidyddol gytbwys, gofynnodd y Cadeirydd am hyd at 6 enwebiad gan y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:-

5.1 derbyn y Ddogfen Cynllunio a Chwmpasu Ddiwygiedig - Adolygu'r gwaith o Reoli Tipio Anghyfreithlon yn Sir Gaerfyrddin;

5.2 cymeradwyo nodau a chwmpas gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen fel y nodir yn y Ddogfen Cynllunio a Chwmpasu ddiwygiedig;

5.3 bod Aelodaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen sy'n gytbwys yn wleidyddol o ran Adolygu'r Gwaith o Reoli Tipio Anghyfreithlon yn Sir Gaerfyrddin fel a ganlyn:-

	Y CYNGHORYDD	PARTI
1.	Y Cynghorydd Arwel Davies	Plaid Cymru
2.	Y Cynghorydd Neil Lewis	Plaid Cymru
3.	Y Cynghorydd Dorian Phillips	Plaid Cymru
4.	Y Cynghorydd John James	Llafur
5.	Y Cynghorydd Shelly Godfrey-Coles	Llafur
6.	Y Cynghorydd Sue Allen	Annibynnol

6. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR SIR CAERFYRDDIN AR GYFER 2021/22

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn atodiad i Adroddiad Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2021/22. Roedd yr adroddiad yn gofyn am ystyriaeth y pwyllgor mewn perthynas â'r meysydd o fewn maes gorchwyl y Pwyllgor.

Rhoddodd yr Aelod Cabinet dros y Gweithlu a Threfniadaeth golwg gorfforaethol ar yr adroddiad i'r Pwyllgor. Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith rannau o'r adroddiad blynyddol sy'n rhan o faes gorchwyl y Pwyllgor Craffu.

Canolbwyntiodd yr Aelodau ar yr adrannau canlynol yn y ddogfen sy'n berthnasol i faes gorchwyl y Pwyllgor:

- Amcan Llesiant 10: Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol
- Amcan Llesiant: Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth

Codwyd y cwestiynau/materion canlynol ar yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at dudalen 72 a 132 yr Adroddiad Blynyddol. Gwnaed sylw fod tudalen 72 yn nodi nad oedd y targed o 64% ar gyfer y gyfradd ailgylchu wedi'i gyrraedd yn dilyn y tân yng Nghyfleuster Ailgylchu Deunyddiau Nantycaws, er hynny, nodwyd ar dudalen 132 fod Adolygiad Archwilio Cymru 2021/22 wedi canfod bod y Cyngor wedi cyrraedd ei dargedau ailgylchu statudol. Mewn ymateb i'r sylw, esboniodd y Cyfarwyddwr Lle a Seilwaith, er bod Adolygiad Archwilio Cymru wedi'i gynnal yn 2021/22, roedd y wybodaeth ystadegol a ddefnyddiwyd yn yr adolygiad yn dod o 2020/21 a dyna pryd yr oedd y targed statudol o 64% wedi'i gyrraedd, gan gadarnhau bod y wybodaeth yn yr adroddiad yn gywir.

  Mewn ymateb i ymholiad pellach, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Lle a Seilwaith na fyddai'r Awdurdod yn cael ei gosbi am beidio â chyrraedd y targed ac esboniodd fod Llywodraeth Cymru yn gwbl ymwybodol o uchelgais y Cyngor i symud tuag at lasbrint newydd ar gyfer y dull casglu lle disgwylir i'r rhagfynegiadau fod yn fwy na'r targed.

- Cyfeiriwyd at Siop ETO ar dudalen 77 yr adroddiad. Er mwyn bod o fudd i'r economi gylchol, gofynnwyd a oedd posibilrwydd y gallai pobl gymryd y nwyddau sy'n cael eu gwaredu mewn cynwysyddion ailgylchu cyn mynd i'r siop. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Amgylcheddol fod rhoddion sy'n cael eu gwaredu mewn canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref ar hyn o bryd yn cael eu nodi fel gwastraff ac felly ni fyddai'n bosib i aelodau'r cyhoedd dynnu eitemau o'r fath o gynwysyddion/sgipiau. Fodd bynnag, wrth gydnabod y budd i'r economi gylchol byddai'n rhywbeth i'w ystyried yn y dyfodol.

- O ran erydu arfordirol, gofynnwyd pryd y cafodd adolygiad cynhwysfawr ei gynnal ddiwethaf? Dywedodd y Cyfarwyddwr Lle a Seilwaith fod Cynllun Rheoli Traethlin rhanbarthol, a oedd yn cael ei oruchwylio gan Adran yr Amgylchedd, yn cynnwys mesurau ynghylch diogelu a rheoli'r arfordir. Yn ogystal â'r cynllun, byddai gwaith monitro gweithredol yn cael ei wneud yn dilyn pob storm i nodi ac ymateb i unrhyw ddifrod a lliniaru unrhyw risg i gymunedau.

- Cyfeiriwyd at yr adran ynghylch Rheoli'r Fflyd ar dudalen 74 y Cynllun Blynyddol. Gofynnwyd am esboniad yn dilyn sylw ynghylch gostyngiad yn y milltiroedd ynghyd â chynnydd yng nghyfanswm y diesel a ddefnyddiwyd. Esboniodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd fod y gostyngiad yn y milltiroedd a'r cynnydd mewn tanwydd oherwydd bod cerbydau arbenigol yn fwy cyffredin o fewn y sector gwastraff a oedd yn defnyddio mwy o danwydd na cherbydau safonol.

- Cyfeiriwyd at yr adran ynghylch Rheoli'r Fflyd ar dudalen 75 y Cynllun Blynyddol. O gofio bod costau trydan yn cynyddu, gofynnwyd a oedd yr Awdurdod wedi cymharu costau cerbydau disel â cherbydau trydan? Esboniodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd fod costau trydan a thanwydd yn cael eu hystyried fel rhan o brosiect gwerthuso byw o bob math o danwydd ac wrth i'r sector symud i ffynonellau ynni amgen. Mae gwaith wedi dechrau ar ddiweddaru'r Strategaeth Fflyd ddiwygiedig a fydd yn cael ei chyflwyno yn 2023.

  Mewn ymateb i ymholiad ychwanegol a godwyd ynghylch technolegau newydd a datblygol, dywedodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd fod yr adran yn ymwybodol o'r technolegau newydd sydd ar gael yn y gwahanol sectorau ar y farchnad ac yn eu monitro'n barhaus. Er ei bod yn bwysig cadw golwg ar dechnolegau'r dyfodol cydnabuwyd ei fod yn fater cymhleth iawn o ran ystyried yr amseru a'r risgiau cysylltiedig.

  Dywedwyd y dylai'r Awdurdod ystyried ei gyflenwad trydan yn y dyfodol, cyfleoedd i fanteisio ar gyfradd benodol - tariff amser defnyddio ac annog gwefru cerbydau dros nos. Cytunodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd y byddai'n fuddiol rhoi ystyriaeth i gynyddu effeithlonrwydd ynni o ran costau.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer 2021/22 yn cael ei dderbyn.

7. ADRODDIAD DATGANIAD BLYNYDDOL 2022 Y CYNLLUN RHEOLI ASEDAU PRIFFYRDD

Cafodd y Pwyllgor Adroddiad Datganiad Blynyddol 2022 y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd, a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith.

Codwyd y cwestiynau/materion canlynol ar yr adroddiad:-

- Mewn ymateb i sylw a godwyd ynghylch pryder am gyflwr ffyrdd gwledig sy'n dirywio, dywedodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd fod y brif broblem o ganlyniad i'r her gyson rhwng gofynion cynyddol a chyllidebau llai, ac nad oedd hyn yn unigryw i Sir Gaerfyrddin. Roedd dull seiliedig ar risg y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd yn canolbwyntio adnoddau cyfyngedig ar feysydd sydd â'r angen mwyaf a oedd yn cadw'r ffyrdd dosbarth uwch mewn cyflwr sefydlog. Lle bo'n briodol, byddid yn gofyn am arian a grantiau gan Lywodraeth Cymru er mwyn datrys unrhyw ddifrod o storm.

- Wrth ganmol y lori tarmac poeth, 'hotbox', a ddefnyddiwyd yn Sir Gâr yn ddiweddar, gofynnwyd a fyddai'r gwasanaeth yn cynyddu yn y dyfodol? Dywedodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd fod yr adroddiad yn tynnu sylw at enghreifftiau o sut roedd technoleg yn cael ei defnyddio wrth foderneiddio gwaith sy'n cael ei wneud i wella effeithlonrwydd a pherfformiad, gan gynnwys defnyddio'r 'hotbox'. Roedd y fenter atgyweirio tyllau yn y ffordd gyda deunydd poeth ynghyd â threialu'r cerbyd 'hotbox' yn darparu dull mwy gwydn na atgyweirio tyllau yn y ffordd gyda deunyddiau oer.

Nodwyd, o ganlyniad i gyfnod prawf llwyddiannus, byddai dau gerbyd 'hotbox' yn cael eu cyflwyno, gan wella ymhellach ein heffeithlonrwydd atgyweirio gydag un ymweliad 'atgyweirio'r tro cyntaf'.

- Wrth gydnabod bod angen proses flaenoriaethu, heb gyllid digonol dywedwyd bod gostyngiadau pellach mewn cronfeydd ar gyfer priffyrdd gan y llywodraeth ganolog a'r lefel gynyddol o ddirywiad o ran ffyrdd diddosbarth yn achos pryder.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Adroddiad Datganiad Blynyddol 2022 y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd.

8. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF - ANSAWDD AER

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad diweddaru ynghylch ansawdd aer a gafodd ei gynnwys ym Mlaengynllun Gwaith y Pwyllgor ar gais y Pwyllgor gan ei fod yn destun pryder parhaus ac yn flaenoriaeth i bobl Sir Gaerfyrddin a thu hwnt.

Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd, yn cynnwys y gwaith a wnaed o ran Ansawdd Aer yn Sir Gaerfyrddin sydd â thair Ardal Rheoli Ansawdd Aer ar hyn o bryd - Llandeilo, Caerfyrddin a Llanelli. Roedd y diweddariad hwn yn nodi gwybodaeth am fonitro Nitrogen Deuocsid (NO_2) ar draws Sir Gaerfyrddin gan gymharu canlyniadau â'r blynyddoedd blaenorol. Cafodd diweddariad ar y cynnydd o ran y Cynllun Cyflawni Ansawdd Aer ei gynnwys hefyd.

Codwyd y cwestiynau/materion canlynol ar yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at y wybodaeth a roddwyd am ansawdd yr aer yn Heol Rhosmaen, Llandeilo a oedd yn dangos lefelau uchel iawn o NO_2. Dywedwyd bod ansawdd yr aer yn Llandeilo wedi bod yn bryder ers rhyw 20 mlynedd a mwy a bod y mater ond yn gwaethygu o flwyddyn i flwyddyn. Dangosodd y dystiolaeth fod lefelau NO_2 ddwywaith dros y terfyn cyfreithiol. Pwysleisiwyd mai'r unig ateb i wella ansawdd aer gwael yn Llandeilo fyddai datblygu ffordd osgoi.

  Mewn ymateb i ymholiad a godwyd ynghylch adolygiad ar ddatblygu ffordd osgoi Llandeilo, roedd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd yn cydnabod, er bod y ffigurau'n dynodi cyfartaleddau ar gyfer adegau penodol o'r dydd, gallai'r ffigyrau hefyd fod yn uwch o lawer ar adegau eraill o'r dydd a'r flwyddyn. Yn ogystal, cydnabuwyd bod ffordd osgoi yn angenrheidiol nid yn unig i wella ansawdd yr aer ond hefyd i ddarparu gwell diogelwch ffyrdd. Eglurodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd i'r Aelodau mai'r ffordd drwy Landeilo oedd y brif gefnffordd rhwng Abertawe a Manceinion. Roedd y ffordd wedi mynd trwy'r Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru yn ddiweddar a byddai'r canlyniad hwn wedyn yn destun ymgynghoriad pellach. Byddai'r cam hwn yn pennu'r rhestr derfynol o gynlluniau i'w hystyried.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith ei fod, fel aelod lleol dros Landeilo, wedi ysgrifennu sawl gwaith at Lee Waters AS, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, ynghylch y mater hwn ond nid oedd wedi cael ateb. Fodd bynnag, dywedodd ei fod fel Aelod Cabinet, wedi ysgrifennu at y Gweinidog yn ddiweddar ac roedd yn falch o gyhoeddi bod cyfarfod rhithwir wedi ei drefnu ar gyfer dydd Llun, 28 Tachwedd rhwng Arweinydd y Cyngor a'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd a bod ffordd osgoi Llandeilo ar yr agenda. Yn dilyn y wybodaeth am y cyfarfod a drefnwyd, cynigwyd bod e-bost yn cael ei anfon at y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ar ran y Pwyllgor i gefnogi ffordd osgoi Llandeilo. Eiliwyd y cynnig hwn.

- Dywedwyd y gallai'r ddeddfwriaeth newydd mewn perthynas â chyflwyno terfyn cyflymder o 20mya ar ffyrdd preswyl a strydoedd prysur i gerddwyr hefyd gael effaith gadarnhaol ar ansawdd aer. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd nad oedd llawer o dystiolaeth ar hyn o bryd i brofi'r naill ffordd neu'r llall, fodd bynnag, roedd y tebygolrwydd y byddai cerbydau'n teithio'n arafach yn debygol o gael effaith gadarnhaol. Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaethau Priffyrdd a Thrafnidiaeth y byddai cyflwyno'r terfynau cyflymder o 20mya yn gwneud y ffyrdd yn fwy diogel i gerddwyr a beicwyr, ac y byddai'r newid yn nulliau teithio o fudd i'r amgylchedd ac yn hybu cymdeithas iach.

- Dywedwyd bod pobl, yn gyffredinol, yn gyndyn i roi'r gorau i'w ceir gan nad oedd y drafnidiaeth gyhoeddus yn ddull teithio cyfleus.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL y dylid anfon e-bost o'r Pwyllgor Craffu at y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd er mwyn cyfleu cefnogaeth gref y Pwyllgor ar gyfer datblygu ffordd osgoi Llandeilo a fyddai'n gwella ansawdd yr aer yn Llandeilo a'r cyffiniau.

9. YSTYRIED GORCHYMYN DIOGELU MANNAU AGORED CYHOEDDUS YCHWANEGOL (PSPO) AR GYFER GORCHMYNION CWN SIR GAERFYRDDIN

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ynghylch ystyried Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus Ychwanegol (PSPO) ar gyfer Gorchmynion Cŵn Sir Gaerfyrddin.

Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd yn cynnwys canlyniadau arolwg ymgysylltu diweddar mewn perthynas â'r potensial i gyflwyno rheolaethau cŵn atodol drwy gyfrwng Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus ychwanegol lle mae tystiolaeth yn cefnogi'r angen am orchmynion ychwanegol.

Nodwyd bod 3,354 o gwynion ynghylch Ymddygiad Gwrthgymdeithasol cysylltiedig â chŵn gan gynnwys baw cŵn wedi dod i law ers i'r gorchymyn ddod i rym yn 2016.

Er mwyn dysgu mwy, cynhaliwyd arolwg ymgysylltu i nodi meysydd / problemau lle gallai fod angen gorchmynion ychwanegol sy'n rhagori ar y rhai presennol. Yn ystod yr un cyfnod, roedd 108 o hysbysiadau cosb benodedig wedi'u rhoi ac roedd 6 erlyniad wedi'u rhoi ar waith i droseddwyr nad oedd wedi talu'r hysbysiad cosb benodedig.

Er mwyn gweithio tuag at fynd i'r afael â'r pryderon parhaus o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig â chŵn mewn cymunedau, cynhaliwyd arolwg ymgysylltu i gasglu barn a nodi meysydd neu broblemau lle gallai fod angen gorchmynion ychwanegol sy'n rhagori ar y Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus presennol.

Cynhaliwyd yr arolwg ymgysylltu wedi'i dargedu gyda rhanddeiliaid allweddol yr effeithiwyd arnynt gan ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig â chŵn a chafodd ei gynnal dros gyfnod o wyth wythnos rhwng 10 Ionawr a 11 Mawrth 2022.

Darparwyd canlyniadau ac adborth yr arolwg ymgysylltu yn yr atodiad i'r adroddiad.

O ganlyniad i'r arolwg ymgysylltu, esboniodd yr Aelod Cabinet fod yr opsiynau o ran gorchmynion ychwanegol i'w hystyried yn cynnwys:

- Gwahardd cŵn o Gaeau Chwaraeon (fesul safle neu ar draws y sir)
- Cadw cŵn ar dennyn ym mhob man cyhoeddus.
- Modd o godi baw ci

I gefnogi'r opsiwn uchod, darparodd yr adroddiad a'r Aelod Cabinet y camau nesaf awgrymedig i'r pwyllgor eu hystyried.

Holwyd ynghylch y canlynol mewn perthynas â'r adroddiad:-

Wrth nodi bod y rhan fwyaf o achosion o faw cŵn yn digwydd ar lwybrau'r stryd gan gŵn ar dennyn lle mae perchnogion cŵn yn dewis peidio â chasglu a gwaredu'n gyfrifol, awgrymwyd mabwysiadu'r cysyniad o ddamcaniaeth perswâd a oedd eisoes wedi bod yn llwyddiannus mewn Cynghorau eraill. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol fod damcaniaeth perswâd eisoes yn rhan allweddol o'r Cynllun Rheoli Ansawdd yr Amgylchedd Lleol a phe bai Cynghorau Tref/Cymuned yn dymuno cymryd rhan mewn defnyddio'r cysyniad o ddamcaniaeth perswâd, roedd pecynnau Baw Cŵn ar gael ar gyfer Cynghorau Cymuned. Yn ogystal, yn dilyn cyfnod prawf, roedd defnyddio stensils wedi bod yn llwyddiannus o ran annog cerddwyr cŵn i osod eu gwastraff yn y bin agosaf drwy ddilyn yr olion pawennau stensiliedig ar y llawr. Hefyd, eglurwyd bod adnoddau wedi'u cyfeirio at ardaloedd sydd â'r angen mwyaf.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet, er mwyn cyfeirio'r adnoddau sydd ar gael yn briodol, y dibynnir yn fawr ar dderbyn gwybodaeth gan aelodau'r gymuned.

Cydnabuwyd bod y Sir yn dibynnu ar 8 Swyddog Gorfodi, ac er bod angen targedu adnoddau yn unol â'r wybodaeth a dderbynnir, codwyd pryder nad oedd y Swyddogion Gorfodi ar gael 24/7 i ddal troseddwyr ar ôl oriau swyddfa neu oriau golau dydd.

Gwnaed sylw pellach y byddai tywydd garw yn rheswm ychwanegol i gerddwyr cŵn beidio â chodi baw eu cŵn ac adleisiwyd y sylw cynharach na fyddai'r swyddogion gorfodi ar gael y tu allan i oriau er gwaethaf y wybodaeth a ddarparwyd. Esboniodd Rheolwr y Gwasanaethau Amgylcheddol fod rôl yr 8 Swyddog Gorfodi yn cynnwys amrywiaeth o droseddau gwahanol ledled Sir Gaerfyrddin gan gynnwys tipio anghyfreithlon, taflu sbwriel, cerbydau wedi'u gadael ac ati, yn ogystal â baw cŵn. Eglurwyd, er nad oedd yn bosibl i'r adnoddau cyfyngedig weithredu ar bob cwyn, roedd cyfeiriad yr adnoddau yn cael ei reoli ar sail blaenoriaeth. Roedd hyn yn cynnwys dull wedi'i dargedu yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd gan aelodau'r cyhoedd a Chynghorwyr sy'n rhoi'r dystiolaeth i dargedu meysydd sy'n peri pryder.

Eglurodd yr Aelod Cabinet fod yr adroddiad yn dilyn yr arolwg ymgysylltu yn darparu opsiynau o ran gorchmynion ychwanegol, gan ofyn am sylwadau ar waharddiadau o gaeau chwaraeon naill ai fesul safle penodol neu waharddiad ar draws y sir? Wrth adolygu'r adborth o'r arolwg ymgysylltu, nodwyd mai prin oedd yr ymatebion a gafwyd gan glybiau/cymdeithasau chwaraeon a allai awgrymu efallai nad oedd gan rai ardaloedd broblem gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â chŵn. Wrth ystyried hyn, eglurwyd bod un o'r opsiynau i'w hystyried yn cynnwys datblygu pecyn cymorth yn benodol ar gyfer clwb/cymdeithasau chwaraeon i ddangos tystiolaeth o unrhyw broblemau a phe bai problem glir roedd gan y clwb chwaraeon fynediad at ddull clir i gyflwyno cais ynghyd â'r dystiolaeth i osod Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus sy'n benodol i safle.

Yn ogystal, cafodd yr aelodau wybod am y posibilrwydd o weithredu'r opsiwn i orfodi cerddwyr cŵn i gael modd o godi baw cŵn.

Mewn ymateb i sylwadau a godwyd ynghylch gwahardd cŵn o fannau chwarae ledled Sir Gaerfyrddin, dywedodd yr Aelod Cabinet wrth y Pwyllgor fod y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus sylfaenol presennol yn cynnwys gwahardd cŵn o bob maes chwarae i blant. Er eglurder, ychwanegodd y Cyfarwyddwr Lle a Seilwaith fod y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus presennol yn cwmpasu pob maes chwarae 'caeedig'.

Gwnaed sawl sylw o blaid yr opsiwn o Orchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus ychwanegol i wahardd cŵn o gaeau chwaraeon, ond cydnabuwyd, er y byddai hyn yn ddull cyson roedd yna hefyd lawer o berchnogion cŵn cyfrifol ac ni fyddent yn dymuno cosbi teuluoedd rhag dod â'u cŵn wrth gefnogi chwaraewyr wrth ochr y cae.

Er mwyn darparu dull cyson, y bwriad oedd cyflwyno Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus ychwanegol i wahardd cŵn o bob cae chwaraeon yn Sir Gaerfyrddin.

Dywedodd yr Aelod Cabinet, gyda chefnogaeth Rheolwr y Gwasanaethau Amgylcheddol, y byddai'n rhaid cadw at gyfres o brofion cyfreithiol o ran cyflwyno Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus ychwanegol i wahardd cŵn o gaeau chwaraeon ledled y sir. Byddai'r profion cyfreithiol yn gofyn am sicrwydd bod gan yr Awdurdod sail resymol lle byddai cyflwyno gorchymyn ychwanegol yn atal y troseddau a nodwyd ar draws y Sir rhag digwydd neu ddigwydd eto. Yn ogystal, rhaid i hyn fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn ymateb cymesur. Dywedwyd wrth yr aelodau nad oedd y dystiolaeth ofynnol ar gael ar hyn o bryd i ddangos bod problem eang a fyddai'n gofyn am Orchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus ar gyfer gwahardd cŵn yn gyffredinol o gaeau chwaraeon. Yn ogystal, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynnal y lle sydd ar gael i gerddwyr cŵn gerdded eu cŵn heb dennyn mewn rhai ardaloedd cymunedol, felly gallai cyflwyno gwaharddiad cyffredinol olygu na fyddai rhai ardaloedd o'r Sir yn gallu darparu'r lle sydd ar gael i gerdded cŵn heb dennyn, a fyddai'n achosi problem.

Byddai'r dull fesul safle yn cefnogi'r broses o gasglu tystiolaeth i gyhoeddi rheolaethau mewn ardaloedd penodol, yn targedu adnodd yn well, yn cefnogi cymunedau ac yn sicrhau y byddai cyflwyno unrhyw Orchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus yn y dyfodol yn gymesur ac yn bodloni'r profion cyfreithiol angenrheidiol.

Yn dilyn y cyngor a ddarparwyd, dywedwyd mai'r rhesymeg y tu ôl i'r Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus ychwanegol i wahardd cŵn o bob cae chwaraeon yn Sir Gaerfyrddin oedd er mwyn darparu dull cyson ledled y sir yn unig. Wrth gydnabod bod teuluoedd yn dod â chŵn i'r cae i gefnogi chwaraewr, awgrymwyd gwahardd cŵn o fewn ffin cae chwaraeon.

Codwyd pryder hefyd ynghylch peryglon y clefyd sy'n gysylltiedig â baw cŵn. Yn ogystal, gwnaed awgrymiadau i helpu i gryfhau pwerau'r Swyddogion Gorfodi presennol drwy ddefnyddio Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a wardeiniaid parcio. Teimlwyd nad oedd y dirwyon yn ddigon i rwystro a bod enwi a chodi cywilydd yn bwysig a dylid defnyddio'r dull hwn yn fwy. Dywedodd y Cyfarwyddwr Lle ac Isadeiledd fod modd i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu arfer yr un pwerau â swyddog gorfodi. Yn ogystal, roedd gan wardeiniaid parcio rôl bendant fel swyddogion gorfodi sifil fel rhan o'r Ddeddf Rheoli Traffig ac felly byddai'n anodd iawn ehangu'r rôl honno i'w defnyddio ar gyfer gorfodi materion eraill.

Cyfeiriwyd at ganlyniadau'r arolwg. Wrth sylwi mai dim ond 12 allan o 72 o Gynghorau Cymuned yn Sir Gaerfyrddin oedd wedi ymateb, nodwyd y byddai wedi bod yn ddefnyddiol pe bai mwy o ymatebion wedi dod i law gan roi darlun gwell o'r mater.

Ar ôl ystyried y cyngor a'r ymatebion a ddarparwyd gan yr Aelod Cabinet a'r swyddogion, cynigiwyd cyflwyno Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus ychwanegol i wahardd cŵn o gaeau chwaraeon penodol yn y Sir. Eiliwyd y cynnig hwn.

Dywedwyd y byddai'n rhaid datblygu pecyn cymorth gan fod meysydd pryder eraill megis traethau a pharciau.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r opsiwn o gyflwyno gorchymyn i orfodi cerddwyr cŵn i gario modd o godi baw cŵn. Dywedwyd bod hyn wedi'i gyflwyno mewn Awdurdod arall yng Nghymru gyda chanlyniad llwyddiannus, fodd bynnag, dywedwyd y byddai'n anodd plismona a gallai achosi gwrthdaro. Dywedodd y Cyfarwyddwr Lle a Seilwaith wrth aelodau y byddai hwn yn fesur ychwanegol i'r swyddogion gorfodi pan fyddant yn ymgysylltu â cherddwyr cŵn sydd â'r nod o newid ymddygiad a meddylfryd gan gyfrannu at ddamcaniaeth perswâd.

9.1 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad ynghylch Ystyried Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus Ychwanegol (PSPO) ar gyfer Gorchmynion Cŵn Sir Gaerfyrddin.

9.2 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CABINET fod Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus ychwanegol yn cael ei gyflwyno i wahardd cŵn o feysydd chwaraeon diffiniedig yn y Sir.

10. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Ystyriodd y Pwyllgor y rhestr o eitemau i gael eu cynnwys ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf oedd i'w gynnal ar 15 Rhagfyr 2022 a rhoddwyd cyfle i'r Pwyllgor wneud cais am unrhyw wybodaeth benodol yr hoffai'r Aelodau ei chynnwys yn yr adroddiadau.

Yn ogystal â'r adroddiadau a oedd i'w cyflwyno yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor Craffu ar 15 Rhagfyr, nododd yr Aelodau'r adroddiadau a fyddai hefyd yn cael eu dosbarthu iddynt y tu allan i broses ffurfiol y Pwyllgor ar gyfer craffu.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y rhestr o'r eitemau i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 15 Rhagfyr, 2022.

11. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 4 HYDREF 2022

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 4 Hydref, 2022, gan eu bod yn gywir.

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**